**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Ian Rickman
Llywydd UAC
Undeb Amaethwyr Cymru

19 Ionawr 2024

Cydsniad Deddfwriaethol: Bil Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw)

Annwyl Ian

Mae Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Lles Anifeiliaid (Allforio Da Byw). wedi cael ei gyfeirio at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at ddibenion craffu. Bydd Aelodau yn ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ein cyfarfod ar 7 Chwefror.

Cyn i ni ystyried y cynnig cydsyniad deddfwriaethol, mae Aelodau wedi penderfynu ysgrifennu at ddetholiad o sefydliadau sydd â diddordeb mewn ffermio a lles anifeiliaid i ofyn am eich barn. A fyddech cystal ag anfon eich barn atom ynghylch y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ac effaith bosibl y Bil ar y diwydiant ffermio a da byw yng Nghymru?

A fyddech cystal ag anfon unrhyw ymateb i'r llythyr hwn erbyn 1 Chwefror. Ymddiheuraf am y terfyn amser byr, mae'r amser a roddir i Bwyllgorau graffu ar Gynigion Cydsyniad Deddfwriaethol yn eithriadol o gyfyngedig.

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi ysgrifennu at Compassion in World Farming ac NFU Cymru.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg